**Cyngor Tref Rhuddlan – Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd 12 Mai 2022**

**Cyfarfod Rhithiol yn ystod Cyfyngiadau Covid 19**

**Yn bresennol:**
Y Cynghorydd Mike Elgin (Maer)
Y Cynghorydd Mike Kermode (Dirprwy Faer)
Y Cynghorydd Ivor Beech
Y Cynghorydd Jackie Burnham
Y Cynghorydd Ann Davies
Y Cynghorydd Reg Davies
Y Cynghorydd Arwel Roberts
Y Cynghorydd Gareth Rowlands
Y Cynghorydd Val Simmons
Y Cynghorydd Bleddyn Williams
Y Cynghorydd Rob Williams
Clerc y Dref
Cynorthwyydd Clerigol /Clerc Cofnodion

**1. Ymddiheuriadau**
Dim

Gwahoddwyd aelodau o'r cyhoedd i ymuno â'r cyfarfod rhithiol ond nid oedd neb wedi gwneud cais i wneud hynny.
Hysbyswyd yr Aelodau bod y cyfarfod yn cael ei recordio, sain yn unig.

**2. Datganiad o Fuddiant**
Y Cynghorydd Jackie Burnham a'r Cynghorydd Mike Kermode, Eitem 11 Ffens yn rhif 28 Hendre Close.

**3. Materion Brys**
Dywedodd y Maer fod 3 mater brys. Ymdrinnir â'r cyntaf yn Rhan 1 ond ymdrinnir â'r gweddill yn Rhan 2.
Clywodd yr Aelodau fod cyfarfodydd rhithiol Zoom bellach wedi cael eu defnyddio am 2 flynedd ac roeddynt wedi bod yn llwyddiannus ond onid yw hi bellach yn amser dychwelyd i gyfarfodydd wyneb yn wyneb?
Esboniodd y Cynghorydd Gareth Rowlands y materion yn ymwneud â hyn, a oedd yn cynnwys: pwysigrwydd cyfarfod wyneb yn wyneb, dod i adnabod ein Cynghorwyr newydd yn well, costau cysylltiedig, a'r angen i bobl wneud Profion Llif Unffordd cyn cyfarfodydd.

Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau fod angen cynnal Cyfarfod Amlffurf yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2021 a rhaid rhoi ystyriaeth i hyn.

Arweiniodd hyn at drafodaeth hir a llawn am wahanol faterion yn ymwneud â chyfarfodydd wyneb yn wyneb, amlffurf, a hybrid. Trafodwyd y ffaith bod sawl enghraifft o gyfarfodydd wyneb yn wyneb bellach yn cael eu cynnal, ynghyd â'r angen i drefnu 'cyfarfod prawf' er mwyn gweld sut byddai cyfarfod wyneb yn wyneb/rhithiol yn gweithio, pa mor ymarferol fyddai'r offer angenrheidiol, pa mor addas fyddai'r lleoliad, a pha fodel roedd yr Aelodau yn ei ffafrio. Yn ystod y drafodaeth awgrymwyd sawl cynnig a diwygiad ac yn y pen draw cytunwyd ar gynnig y Cynghorydd Jackie Burnham i gynnal cyfarfod ym mis Mehefin a fyddai'n rhoi prawf ar y drefn wyneb yn wyneb a rhithiol gyda system gyfathrebu ad hoc (defnyddio gliniadur a seinyddion allanol). Byddai hyn yn galluogi Aelodau i glywed beth oedd yn cael ei drafod ond ni fyddent yn gallu gweld, ac ni fyddai angen cynnal Profion Llif Unffordd. Eiliwyd gan y Cynghorydd Gareth Rowlands. **Penderfynwyd**.

**4. Materion yn ymwneud â'r Heddlu**

Derbyniwyd e-bost heb adroddiad ynghlwm ond roedd y neges yn cynnwys ymrwymiad i ddod i gyfarfod mis Mehefin.

**5. Cofnodion**

**Cyfarfod Cyngor y Dref 10 Mawrth 2022**

Cynigiwyd y Cofnodion fel cofnod cywir gan y Cynghorydd Gareth Rowlands, eiliwyd gan y Cynghorydd Jackie Burnham. **Penderfynwyd.**

Llofnodwyd y Cofnodion trwy hyn.

**6. Materion yn Codi**

a. **Gwelliannau i Folardiau yn Stryd y Castell –** Dim newid hyd yma.
b. **Parco am ddim ym maes parcio Stryd y Senedd** – Dywedodd y Clerc fod Cyngor Sir Ddinbych yn dweud y byddai'n costio £498 i ailraglennu'r peiriannau tocynnau i gynnig 1 awr am ddim, a byddai hyn yn cael ei weithredu unwaith y byddai Cyngor y Dref yn cytuno. Cynigiwyd gan y Cynghorydd Jackie Burnham, eiliwyd gan y Cynghorydd Mike Kermode. **Penderfynwyd.**

   Ar fater parcio yn maes parcio Coetiau Postol, trafododd yr Aelodau'r defnydd parhaus a wneir o'r maes parcio gan y feddygfa a'r diffyg man parcio anabl. Cydnabyddwyd nad yw'r ardal hon o'r maes parcio yn eiddo i Gyngor y Dref felly nid lle'r Cyngor oedd trafod telerau gyda BIPBC na chytuno ar benderfyniadau ynglŷn â sut dylai gael ei defnyddio. Roedd Cyngor Sir Ddinbych wedi gofyn i'r Cyngor am ei farn ynglŷn â'r mater a chytunodd yr Aelodau y dylid dweud wrth Gyngor Sir Ddinbych i fwrw ymlaen i drafod gyda BIPBC gan nad yw'r ardal yn berchen i ni. **Penderfynwyd.**

   Awgrymwyd y dylai'r Cynghorwyr Sir siarad gyda BIPBC a Chyngor Sir Ddinbych er mwyn esbonio'r sefyllfa uchod. **Penderfynwyd**.
c. **Grant Cymunedau Gwyrdd –** Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau fod yr holl grantiau y gwnaethom gais amdanynt wedi bod yn llwyddiannus.

d. **Bancio ar y rhyngrwyd** – Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau fod y ddogfen fandad flaenorol yn anghywir. Derbyniwyd dogfen newydd sydd wedi'i chwblhau a bydd yn cael ei llofnodi gan yr holl lofnodyddion newydd.

e. **Y tir y tu ôl i'r marchogion** – Roedd Stad Bodrhyddan wedi gwneud cynnydd pellach gyda'r ardal hon er mawr foddhad i'r Aelodau. Roedd cytundeb y brydles yn cael ei ddrafftio a thrafododd yr Aelodau'r posibilrwydd o blannu rhagor o goed ger yr afon a'r bont droed. Cytunodd y Cyngor i anfon llythyr o ddiolch i'r stad. **Penderfynwyd.**

f. **Diweddariad am Ddiogelwch y Ffyrdd –** Roedd Cyngor Sir Ddinbych yn wynebu oedi wrth asesu safleoedd ar gyfer dyfeisiau dangos cyflymder (SID) eraill. Roedd Ysgol y Castell wedi cadarnhau bod ganddynt 200 o luniau ar gyfer y gystadleuaeth. Byddai'r gweithgor yn trefnu cyfarfod i feirniadu'r rhain ymhen pythefnos, ac ychwanegwyd y gall unrhyw aelod fynychu'r cyfarfod hwnnw.

g. **Eglwys y Santes Fair –** wedi ysgrifennu at yr eglwys er mwyn gweld sut gallwn gydweithio'n gyfreithiol i'w chefnogi.

h. **Mynwent** – adroddwyd am y broblem wrth strimio'r glaswellt ac mae Cyngor Sir Ddinbych wedi dweud y bydd yn gweithredu'n fwy gofalus yn y dyfodol. Ar fater y fynwent, cyfeiriodd yr Aelodau at ddau fater: llifogydd a'r angen am fynwent newydd. Awgrymwyd y dylai'r Clerc ofyn i Gyngor Sir Ddinbych am gael cyfarfod ar y safle i adrodd ar gynnydd.

   Dywedodd Cllr Ann Davies, fel Cynghorydd Sir, fod yr ail arolwg wedi'i gwblhau a bod materion llifogydd o dan reolaeth. Disgwylir i'r gwaith ddechrau cyn bo hir. Diolchodd yr Aelodau i'r Cynghorydd Davies am ei hymdrechion yn y mater hwn ond cytunwyd bod angen i Gyngor y Dref barhau i weithredu ar y ddau fater hyn. Dylid ysgrifennu at Gyngor Sir Ddinbych a gofyn am fanylion o'r arolwg a'r camau mae'n bwriadu eu cymryd. **Penderfynwyd.**

**7. Gohebiaeth gan:**

**a. Y Maer**

Roedd adroddiad y Maer wedi cael ei ddosbarthu.

**Derbyniwyd yr adroddiad.**

**b. Clerc y Dref**

Roedd yr adroddiad wedi cael ei ddosbarthu cyn y cyfarfod a chafodd ei drafod.

a) Roedd y Clerc wedi derbyn e-bost gan Gyngor Sir Ddinbych mewn perthynas â'r oedi wrth godi arwydd i ymwelwyr ar yr A55. Roedd yr Aelodau yn pryderu bod Cyngor Sir Ddinbych wedi derbyn cyfraniad Cyngor y Dref ers dros 12 mis, ac roeddynt yn dymuno anfon llythyr cryf yn cwyno am yr oedi hir ac anfon copi hefyd at y partneriaid sy'n ariannu'r eitem, sef Cyngor Tref Dinbych, Cyngor Dinas Llanelwy, ac Eglwys Gadeiriol Llanelwy. **Penderfynwyd.**

b) Mae'n rhaid datblygu cynllun hyfforddiant ar gyfer Cynghorwyr yn ôl y gyfraith, i gynnwys y Cod Ymddygiad a'r polisïau Diogelu Data yn benodol. Gofynnwyd i'r Clerc ymchwilio i'r dewisiadau. **Penderfynwyd**

c) Mae'n rhaid cwblhau'r Adroddiad Blynyddol cyn diwedd mis Awst felly bydd yn rhaid i'r adroddiad fod yn barod i'w gymeradwyo erbyn cyfarfod mis Gorffennaf. Trafododd yr Aelodau'r posibilrwydd o gysylltu'r adroddiad â Chynllun y dref,

gwefan y Cyngor a'i dudalen Facebook er mwyn rhoi gwybod i'r gymuned am y cynnydd yn holl weithgareddau'r Cyngor, a chasglu syniadau am anghenion Rhuddlan yn y dyfodol, a cheisio eu gwireddu. Nodwyd mai swyddogaeth y Cyngor yw bwrw ymlaen ag anghenion y gymuned lle bo hynny'n bosibl, a bod angen datblygu cyfathrebu dwy--ffordd. A yw hi'n ymarferol disgwyl i bobl ddilyn tudalennau Facebook Rhuddlan Today i gyflawni hyn? Cynigiodd y Cynghorydd Gareth Rowlands y dylai Pwyllgor y Wefan a Gwybodaeth drafod y mater hwn a dod yn ôl at y Cyngor Llawn gyda rhai argymhellion. Eiliwyd gan y Cynghorydd Jackie Burnham. **Penderfynwyd.**

d) Clywodd yr Aelodau y byddai'n fuddiol i'r holl Aelodau ddefnyddio cyfeiriad e-bost Cyngor y Dref. Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mike Elgin, eiliwyd gan y Cynghorydd Gareth Rowlands. **Penderfynwyd.**

e) Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa fod yn rhaid anfon unrhyw eitemau i'w rhoi ar agenda cyfarfodydd y Cyngor, ac unrhyw adroddiadau, at y Clerc erbyn 1900 o'r gloch, y dydd Gwener cyn y cyfarfod.

**Derbyniwyd yr adroddiad**

**8. Adroddiadau Cynghorwyr Sir**

Ni dderbyniwyd unrhyw adroddiadau oherwydd yr etholiadau.

**9. Adroddiad Prosiectau Cynllun y Dref**

Roedd Clerc y Dref wedi dosbarthu diweddariad a darllenwyd diweddariad ar gyfer pob prosiect.

Cynhelir Marchnad y Ffermwyr nesaf ar 18 Mehefin.

**Derbyniwyd yr adroddiad.**

**10. Cofnodion Gweithgor y Jiwbilî 26 Ebrill 2022**

Cynigiwyd y Cofnodion fel cofnod cywir gan y Cynghorydd Gareth Rowlands i'w cymeradwyo. Eiliwyd gan y Cynghorydd Mike Elgin. **Penderfynwyd.**

Ar ôl nodi sylwadau'r grŵp nad oedd angen cyfarfod pellach, trafododd yr Aelodau sawl eitemau yr oedd angen rhoi sylw pellach iddynt yn eu barn nhw. Roedd y rhain yn cynnwys:

- A ddylid dosbarthu taflenni neu beidio
- Polisi tâl y cyngerdd
- Gwyrdroi cymeradwyaeth argymhellion blaenorol gan y Cyngor Llawn
- Y ffaith y gallai'r drefn 'y cyntaf i'r felin' ar gyfer tocynnau arwain o bosibl at gyhuddiad o ffafriaeth
- Cynnwys Aelodau newydd

Gofynnodd yr Aelodau am gynnal cyfarfod arall o'r grŵp lle gellid trafod y materion hyn. Cynigiwyd y dylid cynnal cyfarfod rhithiol ddydd Mawrth, 17 Mai, am 7pm. Cynigiodd y Cynghorydd Gareth Rowlands drefnu'r cyfarfod yn absenoldeb y Clerc. **Penderfynwyd.**

**11. Ffens yn rhif 28 Hendre Close**

Roedd y Cynghorwyr Jackie Burnham a Mike Kermode wedi datgan buddiant a chawsant eu hanfon i'r ystafell aros.
Roedd y Clerc wedi ymchwilio i berchnogaeth y ffens a rhannodd ei ganfyddiadau gyda'r Aelodau. Yn 1972 roedd y cyngor plwyf blaenorol wedi talu am y ffens, mae Gweithredoedd y Cyngor yn dangos bod gan y Cyngor gyfrifoldeb ar y cyd am gynnal y ffens a'i fod yn rhannu costau cynnal, ac nid oedd y Gofrestrfa Tir wedi gwneud sylw ar y mater.
Roedd Mr Burnham yn gofyn am ganiatâd Cyngor y Dref i godi ffens newydd ac am gyfraniad o 50% gan y Cyngor i dalu am gostau'r deunyddiau. Roedd Mr Burnham yn cynnig gwneud y gwaith ei hun ar ddim cost i Gyngor y Dref.
Cafwyd trafodaeth hir ar y mater, a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Gwrthododd Cyngor Tref Rhuddlan gyfrannu nôl yn 2008,
- Safon uchel y deunyddiau sy'n cael eu hawgrymu gan y perchennog.
- Y dylai'r Cyngor ymchwilio i gostau deunyddiau a chontractwr arall.
- Roedd Mr Burnham wedi codi ffens newydd ar y ffin gyda'r clwb bowlio yn llwyddiannus yn y gorffennol.
- Roedd Gweithredoedd y Cyngor yn dangos bod y ffin yn cael ei rannu.
- Tryloywder o ran y defnydd o arian cyhoeddus.
- Cydnabyddiaeth bod costau contractwyr yn codi ac y byddant yn dal i godi gydag amser.

Cytunodd yr Aelodau i gynnig gan y Cynghorydd Gareth Rowlands, eiliwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts sef bod y Cyngor yn rhoi caniatâd i godi ffens newydd ar y ffin, ac yn talu hanner costau'r deunyddiau. **Penderfynwyd**.
Cafwyd trafodaeth bellach am yr angen i gontractwr ffensio'r Cyngor dendro ar gyfer y deunyddiau a'r gwaith ffensio. Yn ogystal â hyn, roedd angen cydnabod bod Mr Burnham yn mynd i dynnu'r hen ffens, y weiren netin uchel a'r gwrych. Roedd angen gweithredu ar sail tebyg am ei debyg wrth weithredu fel y nodwyd uchod.
Roedd y Maer yn dymuno symud ymlaen â'r mater hwn, ac fe wnaeth atgoffa'r Aelodau eu bod eisoes wedi penderfynu talu 50% o'r costau ond eu bod yn awr wedi derbyn cynnig yn gofyn am ddyfynbris gan gontractwr ffensio'r Cyngor am gwblhau'r gwaith, gan sicrhau bod y deunyddiau a'r gwaith ar sail tebyg am ei debyg. **Penderfynwyd**.
Ailymunodd y Cynghorwyr Burnham a Kermode â'r cyfarfod.

**12. Lleoedd Lleol ar gyfer Natur**

Roedd Aelod wedi gofyn i'r eitem hon gael ei rhoi ar yr Agenda ac roedd am wybod a fyddai'r tir y tu ôl i'r marchogion yn addas ac a fyddai gan unrhyw un o'n grwpiau amgylcheddol lleol ddiddordeb mewn cymryd rhan. Nodwyd bod Cadwch Gymru'n Daclus, a oedd yn trefnu'r rhaglen, wedi ymweld â Chae'r Llyngesydd y llynedd ac nid oedd Pecynnau Dechreuwyr yn addas ar ein cyfer ond mae'n bosibl y byddai perllan gymunedol yn iawn. Ni chafwyd unrhyw awgrymiadau.

Cynigiodd y Cynghorydd Gareth Rowlands y dylid rhoi'r manylion ar ein gwefan a thudalen Facebook er mwyn i'r gymuned eu gweld. Eiliwyd gan y Cynghorydd Mike Kermode. **Penderfynwyd.**

**13. Materion yn ymwneud â'r Stryd Fawr**

Cyfeiriodd yr Aelodau at faterion fel y trafferthion sy'n wynebu busnesau ar hyn o bryd, siopau gwaag, siopa ar-lein a pharcio i siopwyr. Dywedwyd y byddai'n fuddiol gweithio gyda busnesau lleol a bod rhai wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu Cynllun y Dref, ond roedd ymgais wedi bod i gydweithio gyda nhw yn y gorffennol ac nid oedd busnesau wedi cefnogi'r ymdrechion hyn. Awgrymwyd syniadau fel llunio rhestr o atyniadau i ymwelwyr ar wefan a thudalen Facebook y Cyngor, ynghyd â thalebau i'w defnyddio mewn busnesau lleol, Codau Q, maes parcio ar wahân i weithwyr busnesau, a byrddau gwybodaeth.

Daeth y drafodaeth i ben gyda chynnig gan y Cynghorydd Jackie Burnham y dylid sefydlu pwyllgor i weithio gyda busnesau i weld beth gellid ei gyflawni. Eiliwyd gan y Cynghorydd Mike Kermode. **Penderfynwyd.**

**14. Ceisiadau Cynllunio**

i) Dim Rhif Cais Cynllunio wedi'i ddarparu – Cwmni 'Mona Offshore Wind Limited' yn ymwneud ag Asesiad Effaith ar yr Amgylchedd

Gwnaeth y Cynghorydd Ann Davies ddatgan buddiant fel Aelod o Bwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych.

Ni wnaed unrhyw sylwadau.

**15. Materion Ariannol /Cyllidebol**

a. Cymeradwyo Cyfriflen Diwedd y Flwyddyn ar gyfer ei harchwilio'n fewnol. Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mike Kermode, eiliwyd gan y Cynghorydd Gareth Rowlands. **Penderfynwyd.**

Roedd yr Aelodau yn dymuno i'r Cofnodion gydnabod y gwaith da a wnaed gan y Clerc blaenorol a'r Clerc presennol.

At hyn, byddai'r Gyfriflen yn dangos bod mantolenni yn cael eu cadw i gadw'r praesept i lawr, hysbysu'r archwilydd o fantolen iach y Cyngor, a byddai'n ddefnyddiol wrth ddenu arian o asiantaethau eraill.

b. Cymeradwyo'r Rhestr Daliadau. **Penderfynwyd.**

c. Diwygiad i'r Rheolau Sefydlog yn ymwneud â Chyflogau. Roedd angen gwneud hyn er mwyn rhoi ystyriaeth i godiadau cyflog diweddar. Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mike Elgin, eiliwyd gan y Cynghorydd Bleddyn Williams. **Penderfynwyd.**

**16. Materion Cymunedol**

a. Mynegodd y Cynghorydd Val Simmons ei phryder ynglŷn â'r diffyg lle parcio i'r anabl yn y feddygfa a'r goryrru ar hyd Ffordd yr Ucheldir.

b. Gofynnodd y Cynghorydd Arwel Roberts wrth yr Aelodau i gymeradwyo gosod baneri'r Urdd ar hysbysfwrdd y Cyngor. **Penderfynwyd**

Cymeradwywyd dyddiadau'r diwrnodau casglu sbwriel nesaf. **Penderfynwyd**

Manylion dyddiad ac amser y Cyngerdd, 7pm 20 Mai.

Cais gan gynghorwyr i gefnogi Gŵyl Gwledd, 14 Mai.

Ar yr adeg hwn, methodd y cysylltiad rhyngrwyd a daeth y cyfarfod rhithiol i ben. Ar ôl ychydig amser llwyddwyd i ailgysylltu ac fe wnaeth y cyfarfod barhau er bod rhai Aelodau wedi methu ailgysylltu. Y rhain oedd y Cynghorwyr Bleddyn Williams, Ann Davies, a Reg Davies
Nid oedd yn bosibl recordio.

c. Cyfeiriodd y Cynghorydd Rob Williams, cynghorydd a oedd newydd ei ethol, at y broblem goryrru ar Ffordd yr Ucheldir, a safon y gwaith torri glaswellt ar gae pêl-droed Cae'r Llyngesydd. Gofynnodd yr Aelodau i'r Clerc holi ein contractwr ynglŷn â'r drefn torri glaswellt. **Penderfynwyd**
Gofynnodd y Maer am y ddôl wyllt yn Nant Close. Fel Cynghorydd Sir, dywedodd y Cynghorydd Arwel Roberts fod Cyngor Sir Ddinbych yn ymchwilio i'r mater.
d. Cyfeiriodd y Cynghorydd Jackie Burnham at broblem cŵn yn baeddu a gofynnodd beth all Cyngor y Dref ei wneud i wella'r sefyllfa? Cafwyd trafodaeth fer. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod swyddogion gorfodaeth yn canolbwyntio ar yr ardal o amgylch yr ysgol ac y dylid rhoi gwybod i Tara Dumas, swyddog Cyngor Sir Ddinbych, am unrhyw broblemau yn ymwneud â baw ci. At hyn, esboniwyd y ddeddfwriaeth ar yr arwyddion baw ci, dylent fod yn fwy (roedd hyn eisoes wedi'i gytuno gan y Cyngor yn y gorffennol), ac o bosibl dylid dylunio rhybuddion y gallai preswylwyr eu gosod ar gatiau eu heiddo.
e. Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau fod CADW yn cynnal digwyddiad ail-greu hanes yn y Castell dros Ŵyl y Banc ond nid oedd unrhyw ddyddiad penodol wedi'i roi. Gofynnodd yr Aelodau i'r Clerc roi'r manylion ar y wefan.

**Rhan 2 Cau allan y Wasg a'r Cyhoedd**

Yn rhinwedd Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, mae'r wasg a'r cyhoedd yn cael eu cau allan o drafodaethau ar y materion canlynol ar y sail y byddai eu datgelu yn niweidiol i fudd y cyhoedd oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod.

**17. Cymeradwyo Cofnodion Atodol 10 Mawrth 2022**

Ar gyfer yr Aelodau newydd, esboniodd y Maer beth yn union oedd goblygiadau materion Rhan 2 a'r hyn mae'n ei olygu iddynt fel rhan o Reolau Sefydlog y Cyngor. Cafodd yr holl Aelodau eu hatgoffa na ellir cyfathrebu dim byd yn Rhan 2 yn gyhoeddus.
Cynigiodd y Cynghorydd Mike Kermode y dylid derbyn y Cofnodion fel cofnod cywir, eiliwyd gan y Cynghorydd Gareth Rowlands. **Penderfynwyd**.
Materion yn codi – roedd y llythyrau wedi'u drafftio a'u hanfon.

**18. Materion Brys o dan Rhan 2**

a) Mae'r Cyngor wedi cyflwyno Medalau Gwasanaeth Hir yn y gorffennol i Gynghorwyr sydd wedi gwasanaethu am fwy na 10 mlynedd. Cynigiodd y Cynghorydd Gareth Rowlands y dylid rhoi medal i'r Cynghorwyr Syd Gaskin ac Andrew Smith; eiliwyd gan y Cynghorydd Mike Kermode. **Penderfynwyd**.

Awgrymodd y Maer y dylai mater Medalau Gwasanaeth Hir gael ei gynnwys yn y Rheolau Sefydlog. **Penderfynwyd**

b) Darllenodd y Maer yr ymateb gan Ombwdsmon Cymru gan ychwanegu y dylai'r achos hwn yn awr ddod i ben yng Nghyngor y Dref, a galwyd ar yr holl Aelodau i weithio gyda'i gilydd a dechrau gyda "llechen lân".

Cytunwyd y byddai copi o'r adroddiad yn cael ei anfon at y cynghorwyr a'r aelodau staff dan sylw. **Penderfynwyd.**

**19. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 9 Mehefin 2022 Cyfarfod Llawn o'r Cyngor am 7pm**

Llofnodwyd………………………………………………………………Y Cynghorydd Mike Elgin (Maer)